OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2645 (Cy.226)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *3 Hydref 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *9 Hydref 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 160A(3) a 172(4) o Ddeddf Tai 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 9 Hydref 2006.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Tai 1996; ac

ystyr "y Rheolau Mewnfudo" ("*the Immigration Rules*") yw'r rheolau a osodwyd fel a grybwyllir yn adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**3**) (Darpariaethau cyffredinol ar gyfer rheoleiddio a rheoli).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio'r dosbarthau o berson a ragnodir o dan adran 160A(3) ac sy'n bersonau cymwys**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2003(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (Dosbarthiadau a ragnodwyd o dan adran 160A(3) ac sy'n bersonau cymwys)—

(a) ar ddiwedd paragraff (d)(ii), ar ôl "1961", hepgorer "." a rhodder yn ei le ";"; a

(b) ar ôl paragraff (d), mewnosoder—

"(e) Dosbarth D1 —"person sydd o dan ofal dyngarol a roddwyd o dan y Rheolau Mewnfudo."

(**1**) 1996 p. 52.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) 1971 p.77.
(**4**) O.S. 2003/239 (Cy. 36).

**Darpariaethau trosiannol**

**3.** Nid oes gan y diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn effaith mewn perthynas â cheisydd a wnaeth gais cyn 9 Hydref 2006 am ddyraniad o lety tai o dan Ran 6 o Ddeddf 1996.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D.Elis-Thomas*

3 Hydref 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â dyrannu llety tai o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996").

Mae rheoliad 2 yn diwygio darpariaethau Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2003 sy'n rhagnodi'r dosbarthau o bersonau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo ac sy'n gymwys i ddyraniad o lety tai. Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod dosbarth newydd o bersonau sy'n gymwys i ddyraniad o lety tai ac sy'n bersonau o dan ofal dyngarol. Math ar ganiatâd a roddir i bersonau nad ydynt yn gymwys i fod â statws ffoadur ond a fyddai'n wynebu gwir risg o ddioddef niwed difrifol pe baent yn cael eu dychwelyd i'r wladwriaeth y maent yn hanu ohoni (gweler paragraffau 339C-344C o'r Rheolau Mewnfudo (HC 395)) yw gofal dyngarol.

Nid yw'r diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn yn effeithio ar geisiadau am ddyraniad o lety tai a wnaed cyn 9 Hydref 2006.